**EITEM 8**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd** |
| **DYDDIAD** | **28 Mehefin 2017** |
| **ENW** | **Cylch Gorchwyl Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd** |
| **PWRPAS** | **I roi gwybod i'r Pwyllgor am swyddogaethau'r Pwyllgor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Er gwybodaeth** |
| **AWDUR** | **Rheolwr Cynllunio (Polisi) Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn** |

**1 Swyddogaethau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**

1.1 Mae yna Gytundeb rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd i ddarparu a chynnal Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Mae'r Cytundeb yn adnabod swyddogaethau penodol ar gyfer y Pwyllgor, sydd fel a ganlyn:

(i) Cynghori ar ffurfio Cytundeb Cyflawni, Dewisiadau Strategol a Strategaeth Ddewisol Gwynedd a Môn.
(ii) Paratoi Cynllun Datblygu Lleol Adnau Gwynedd a Môn.
(iii) Paratoi ac ystyried ymatebion i ymgynghoriadau'r Cynllun Datblygu Lleol Adnau.
(iv) Cytuno ar, a pharatoi'n derfynol, adroddiad ar ymatebion i ymgynghoriadau ac (yn ôl y gofyn) newid Cynllun Datblygu Lleol Adnau Gwynedd a Môn.
(v) Cytuno a pharatoi'n derfynol Gynllun Datblygu Lleol Adnau Gwynedd a Môn
(vi) Derbyn a chytuno ar Adroddiad yr Arolygydd Cynllunio.
(vii) Bod â chyfrifoldeb am fonitro ac adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Gwynedd a Môn.
(viii) Ffurfio Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Gwynedd a Môn.
(ix) Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Gwynedd a Môn.
(x) Bod â chyfrifoldeb am gynghori ar gadw trosolwg ar, ac adolygu, rhaglenni sy'n cael eu hariannu'n allanol nad ydynt yn dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor ond sy'n bwysig i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan neu ar ran y Pwyllgor ac i adnoddau sy'n cael eu rhannu. Bydd hyn yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) ymateb i gynlluniau Datblygu Lleol mewn Awdurdodau Cynllunio cyfagos ac ymateb i ddogfennau ymgynghori ynghylch Polisi Cynllunio Cenedlaethol a dogfennau cynghori.
(xi) Cadw trosolwg ar, a derbyn adroddiadau gan, yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.
(xii) Penodi unrhyw banel neu weithgor er mwyn bod o gymorth i'r Pwyllgor wrth ei waith.

1.2 Mae'r testun nesaf yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y Pwyllgor:

(i) Mae gan y Pwyllgor gyfanswm o 14 o Aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd ac Is Gadeirydd.

(ii) Dylai'r ddau Awdurdod benodi un Aelod wrth gefn rhag ofn y bydd lle gwag yn codi neu na fydd Aelod penodedig yn gallu bod yn bresennol ond, fel arall, ni chaniateir Aelodau sy'n dirprwyo.

(iii) Bob blwyddyn, bydd y Pwyllgor yn cynnal Cyfarfod Blynyddol gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar ôl i bob un o'r ddau Awdurdod gynnal eu cyfarfodydd blynyddol eu hunain.

(iv) Dyma'r dyddiadau sydd wedi cael eu hadnabod ar hyn o bryd ar gyfer cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd:

| DYDDIAD | AMSER | LLEOLIAD |
|---|---|---|
| 28 Mehefin 2017<br>(y cyfarfod blynyddol) | 2:00 – 4:00 | Siambr y Cyngor, Llangefni |
| 22 Medi 2017 | 1:00 – 4:00 | Glyder Fawr, Caernarfon |
| 10 Tachwedd 2017 | 1:00 – 4:00 | Ystafell Bwyllgor 1) Llangefni |
| 26 Ionawr 2018 | 9:00 – 12:00 | Glyder Fawr, Caernarfon |
| 9 Mawrth 2018 | 9:00 – 12:00 | Ystafell Bwyllgor 1) Llangefni |

(v) Y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor fydd pedwar o'i Aelodau.

(vi) Bydd y Cadeirydd yn cadeirio cyfarfodydd a'r Is-gadeirydd yn gwneud hynny os bydd yn absennol. Os bydd y ddau'n absennol, bydd y Pwyllgor yn dewis Aelod arall i gadeirio.